COMISIWN ELUSENNAU

Ymgynghoriad

# Yr ymddiriedolwr hanfodol: beth mae angen i chi wybod, beth mae angen i chi ei wneud

## Cynnwys


1. Am y canllaw hwn
2. Crynodeb cyflym
3. Pwy all fod yn ymddiriedolwr a sut mae ymddiriedolwyr yn cael eu penodi
4. Cyflawni dibenion eich elusen
5. Cydymffurfio â'ch dogfen lywodraethol a'r gyfraith
6. Gweithredu er lles gorau eich elusen
7. Rheoli adnoddau eich elusen mewn modd cyfrifol
8. Gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol
9. Sicrhau bod eich elusen yn atebol
10. Cynllunio ar gyfer y dyfodol
11. Deall ac atal atebolrwydd personol
12. Gwybodaeth i ymddiriedolwyr mathau arbennig o elusennau neu rolau arbennig


## 1. Am y canllaw hwn

Mae elusennau'n cyflawni rôl hanfodol mewn cymdeithas. Os ydych chi'n ymddiriedolwr elusen rydych chi'n gyfrifol am bobl, arian ac asedau eraill yr elusen. Nid yw bwriadau da yn unig yn ddigon i gyflawni eich cyfrifoldebau. Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r rheolau y mae angen i bob ymddiriedolwr elusennau yng Nghymru a Lloegr eu deall a'u dilyn.

Dylech ddarllen y canllaw hwn os ydych chi'n:

- ymddiriedolwr elusen gofrestredig
- ymddiriedolwr elusen nad yw'n ofynnol iddi gofrestru
- ystyried sefydlu elusen neu fod yn ymddiriedolwr

Os ydych chi'n helpu i redeg elusen ond nid ydych yn gwybod a ydych chi'n ymddiriedolwr neu beidio, cyfeiriwch at y diffiniad yn adran 1.1.

DRAFT

Pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le mewn elusen, yn aml iawn mae'n digwydd oherwydd bod yr ymddiriedolwyr heb ddeall neu ddilyn eu dyletswyddau cyfreithiol sylfaenol neu reolau'r elusen. Gall hyn gael canlyniadau difrifol i'r elusen ac i'r ymddiriedolwyr yn bersonol. Drwy ddefnyddio'r canllaw hwn gallwch osgoi rhai o'r camgymeriadau cyffredin sy'n creu trafferthion i elusennau a'u hymddiriedolwyr.

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi ysgrifennu'r canllaw hwn i'ch helpu i:

- ddeall eich cyfrifoldebau, a beth mae angen i chi ei wneud i'w cyflawni
- gwybod pam mae eich elusen yn bodoli, a beth y caniateir iddi ei wneud
- bod yn ymwybodol pryd mae angen rhagor o gymorth neu wybodaeth arnoch chi, a sut i gael y cymorth neu'r wybodaeth honno

Mae'r comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr gymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif a defnyddio'r wybodaeth yn y canllaw hwn.

Mae rhan 2 yn grynodeb byr o'r prif bwyntiau yn y canllaw hwn. Esbonnir y rhain yng ngweddill y canllaw. Fe welwch ddolenni i ganllawiau mwy manwl os oes eu hangen arnoch.

## Rhaid a dylai - beth maen nhw'n ei olygu

Yn y canllaw hwn:

- mae 'rhaid' yn golygu rhywbeth sy'n ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol y mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag ef
- mae 'dylai' yn golygu rhywbeth sy'n ofyniad arfer da lleiaf a allai, os nad ydych yn cydymffurfio ag ef, gael ei ystyried yn dor-ddyletswydd. O ganlyniad, mae'r comisiwn yn disgwyl i chi ddilyn y rhain oni bai bod rheswm da gennych dros beidio â gwneud hynny

Os nad ydych yn dilyn yr arfer da penodedig:

- gall y comisiwn ofyn i chi esbonio a chyfiawnhau eich penderfyniad
- efallai y bydd yn anodd i chi gydymffurfio â'ch cyfrifoldebau cyfreithiol
- os yw rhywbeth yn mynd o'i le o ganlyniad, efallai y byddwch yn torri eich dyletswyddau cyfreithiol ac yn gyfrifol am unrhyw golled a ddaw i'r elusen
- gall y comisiwn drin hyn fel tystiolaeth o gamymddygiad neu gamreoli

## 1.1 Diffiniadau o'r termau technegol a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Mae'r adran hon yn esbonio rhai o'r termau cyfreithiol a thechnegol a ddefnyddir yn y canllaw hwn. Gallwch edrych arno nawr neu ddod yn ôl ati os ydych chi'n darllen term nad ydych yn ei ddeall.

'Amcanion' neu 'ddibenion' elusen yw'r hyn y mae'n bodoli i'w gyflawni (er enghraifft, lleddfu tlodi mewn ardal arbennig). Mae'r Ddeddf Elusennau yn cyfeirio at 'ddibenion'; mae dogfennau llywodraethol nifer o elusennau yn defnyddio'r term 'amcanion'.

Ystyr 'buddiolwr' neu 'fuddiolwyr' yw unigolyn neu grŵp o bobl sy'n gymwys i gael budd o'r elusen. Fel arfer mae grŵp buddiolwyr elusen wedi'i ddiffinio yn ei dogfen lywodraethol. Bydd rhai elusennau'n galw eu buddiolwyr yn gleientiaid neu'n ddefnyddwyr gwasanaeth.

Ystyr y 'comisiwn' yw'r Comisiwn Elusennau, sef y rheoleiddiwr ar gyfer elusennau yng Nghymru a Lloegr

DRAFT

Ystyr 'Deddf Elusennau' yw Deddf Elusennau 2011. Weithiau mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at bwerau penodol o dan y Ddeddf hon.

Y 'ddogfen lywodraethol' yw'r ddogfen gyfreithiol sy'n amlinellu'r rheolau sy'n llywodraethu elusen. Mae'r rhain yn cynnwys amcanion yr elusen ac, fel arfer, sut y dylid ei gweinyddu. Fel arfer mae'n weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn gyfansoddiad neu'n erthyglau cymdeithasu SCE. Mae gan rai elusennau gwahanol fath o ddogfen fel trawsgludiad, ewyllys, Siarter Frenhinol neu gynllun y Comisiwn Elusennau. Gwybod mwy am ddogfennau llywodraethol.

Mae 'elusen anghorfforedig' yn elusen sydd wedi'i sefydlu fel ymddiriedolaeth neu gymdeithas. Mae bod yn anghorfforedig yn golygu nad yw'r elusen yn gorff cyfreithiol (felly ni all ddal eiddo neu lunio contractau) ei hun. Nid yw atebolrwydd personol ymddiriedolwyr yn gyfyngedig. Gweler rhan 12 y canllaw hwn i gael rhagor o fanylion.

Ystyr 'elusen gorfforedig' yw cwmni elusennol, SCE, corff siarter frenhinol neu gorfforaeth wedi'i chreu gan Ddeddf Seneddol. Mae corfforedig yn golygu bod yr elusen ei hun yn gorff cyfreithiol. Gall berchen ar eiddo neu lunio contractau yn ei henw ei hun. Mae ymgorffori yn rhoi mwy o ddiogelwch i ymddiriedolwyr rhag atebolrwydd personol. Gweler rhan 12 y canllaw hwn i gael rhagor o fanylion.

Mae 'elusen sydd wedi'i hesgusodi' wedi'i hesgusodi rhag cofrestru a chael ei rheoleiddio'n uniongyrchol gan y comisiwn. Mae gan y rhan fwyaf o elusennau sydd wedi'u hesgusodi reoleiddiwr elusennau gwahanol (neu 'brif reoleiddiwr'). Darllen mwy am elusennau sydd wedi'u hesgusodi.

Mae 'er lles gorau'r elusen' yn golygu beth fydd yn cynnig modd i'r elusen gyflawni ei dibenion orau er budd y cyhoedd. Gweler rhan 6 y canllaw hwn i gael rhagor o fanylion.

Mae 'sefydliad corfforedig elusennol', neu 'SCE', yn ffurf gyfreithiol gorfforedig wedi'i llunio'n benodol ar gyfer elusen. Gweler rhan 12 y canllaw hwn i gael rhagor o fanylion.

Mae 'unigolyn neu gynghorydd cymwysedig addas' yn rhywun y gallai fod yn rhesymol i'r ymddiriedolwyr ddisgwyl iddo/iddi fod yn gymwys i'w cynghori ar fater arbennig. Mae hyn yn cynnwys cynghorwyr proffesiynol (megis cyfreithwyr, cyfrifwyr a syrfewyr). Gallai hefyd gynnwys aelod o staff yr elusen, ymddiriedolwr proffesiynol neu gynghorydd o sefydliad arall.

Ystyr 'ymddiriedolwr' yw ymddiriedolwr elusen. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am lywodraethu elusen a chyfeirio sut y caiff ei rheoli a'i rhedeg. Gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, y bwrdd, y pwyllgor rheoli, llywodraethwyr, cyfarwyddwyr neu'n enw arall. Mae'r Ddeddf Elusennau yn diffinio'r bobl sydd â rheolaeth derfynol am yr elusen fel yr ymddiriedolwyr elusen, beth bynnag y cânt eu galw yn nogfen lywodraethol yr elusen.

Mae 'ymddiriedolwr gwarchod' yn gorfforaeth a benodir i ddal eiddo ar ran yr elusen. Nid yw'n ymddiriedolwr elusen ac mae'n rhaid iddo weithredu yn ôl cyfarwyddiadau cyfreithiol yr ymddiriedolwyr elusen.

'Ymddiriedolwr proffesiynol' yw rhywun (e.e. cyfreithiwr neu gyfrifydd) sy'n ymddiriedolwr fel rhan o'i fusnes neu broffesiwn. Byddai hefyd yn cynnwys ymddiriedolwr sydd (neu'n sy'n honni fod ganddo neu ganddi) wybodaeth arbenigol neu brofiad o rywbeth.

Mae 'ymddiriedolwyr daliannol' yn unigolion a benodir i ddal eiddo'r elusen. Nid ydynt yn ymddiriedolwyr elusen. Mae'n rhaid iddynt weithredu yn ôl cyfarwyddiadau cyfreithiol yr ymddiriedolwyr elusen ac yn unol ag unrhyw ddarpariaethau yn y ddogfen lywodraethol.

DRAFT

# 2. Crynodeb cyflym

Dyma grynodeb o'r prif bwyntiau yn y canllaw Yr Ymddiriedolwr Hanfodol. Ni fydd y crynodeb hwn yn dweud y cyfan y mae angen i chi ei wybod; edrychwch ar weddill y canllaw i gael rhagor o wybodaeth. Mae'r canllaw hwn yn esbonio:

- pwy all fod yn ymddiriedolwr
- eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau chi fel ymddiriedolwr a beth maent yn ei olygu yn ymarferol
- pethau eraill y dylech chi eu gwneud neu eu hystyried fel ymddiriedolwr
- ble i gael rhagor o wybodaeth am arferion da a fydd yn cynnal effeithiolrwydd eich elusen
- sut i osgoi camgymeriadau cyffredin - dysgu o waith rheoleiddio'r comisiwn
- gwybodaeth i ymddiriedolwyr mathau arbennig o elusennau neu rolau arbennig

## 2.1 Pwy all fod yn ymddiriedolwr?

Mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed o leiaf i fod yn ymddiriedolwr elusen sy'n gwmni neu'n SCE, neu o leiaf 18 oed i fod yn ymddiriedolwr unrhyw fath arall o elusen.

Ni allwch weithredu fel ymddiriedolwr os ydych chi wedi'ch cael yn euog o drosedd sy'n cynnwys anonestrwydd neu dwyll, yn fethdalwr neu wedi llunio cytundeb ffurfiol gyda chredydwr, neu wedi cael eich diswyddo fel cyfarwyddwr cwmni neu ymddiriedolwr elusen oherwydd drwgweithred. Mae cyfyngiadau pellach ar gyfer elusennau sy'n helpu plant neu bobol agored i niwed. Gall dogfennau llywodraethol elusen hefyd osod amodau ar gyfer pwy all fod yn ymddiriedolwr.

Gweler rhan 3 i gael mwy o wybodaeth.

## 2.2 Eich cyfrifoldebau cyfreithiol fel ymddiriedolwr

Rhaid i chi:

- gyflawni dibenion eich elusen er budd y cyhoedd (gweler rhan 4)
- cydymffurfio â dogfen lywodraethol eich elusen a'r gyfraith (gweler rhan 5)
- gweithredu er lles gorau'r elusen yn unig (gweler rhan 6)
- rheoli adnoddau'r elusen mewn modd cyfrifol (gweler rhan 7)
- gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol (gweler rhan 8)

## 2.3 Pethau eraill y dylech chi eu gwneud

Dylech hefyd:

- sicrhau bod eich elusen yn atebol; mae hyn yn cynnwys:
    - sicrhau bod gwybodaeth ystyrlon am yr elusen ar gael
    - cyfathrebu dwyffordd agored a gonest â buddiolwyr, cefnogwyr a rheoleiddwyr
    - dangos bod yr elusen yn effeithiol ac yn cydymffurfio â'r gyfraith (gweler rhan 9)
- cynllunio ar gyfer y dyfodol (yn ogystal â'r presennol) (gweler rhan 10)



DRAFT

## 2.4 Sut i osgoi camgymeriadau cyffredin - dysgu o waith rheoleiddio'r comisiwn

Mae rhai camgymeriadau cyffredin y mae ymddiriedolwyr yn eu gwneud, sydd yn aml wrth wraidd y mater pan aiff pethau o'i le yn ddifrifol. Gallai hyn niweidio'r elusen neu ei buddiolwyr. Gall ymddiriedolwyr wynebu canlyniadau personol. Gallwch osgoi'r camgymeriadau hyn trwy:

- ddeall eich cyfrifoldebau
- gwybod eich dogfen lywodraethol
- gwneud penderfyniadau yn briodol
- delio â gwrthdaro buddiannau
- bod yn barod i herio rhagdybiaethau
- peidio ag ymddiried gormod
- gofyn cwestiynau (hyd yn oed rhai 'lletchwith' neu 'dwp')
- sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei hanfon i'r comisiwn (cyfrifon, ffurflenni blynyddol, manylion yr ymddiriedolwyr) i gyd wedi'u diweddaru

Bydd yr wybodaeth ar wefan y comisiwn yn eich helpu chi. Os ydych yn rhoi eich cyfeiriad e-bost i'r comisiwn gallwch gael Newyddion y Comisiwn Elusennau bedair gwaith y flwyddyn, gyda diweddariadau a gwybodaeth ddefnyddiol.

## 2.5 Gwybodaeth i ymddiriedolwyr mathau arbennig o elusennau neu rolau arbennig

Mae rhai pethau eraill y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt os ydych chi'n ymddiriedolwr:

- elusen anghorfforedig
- cyfarwyddwr cwmni elusennol
- Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)
- â rôl ymddiriedolwr arbenigol, fel cadeirydd neu drysorydd

Gallwch ddarllen mwy yn rhan 12 o'r canllaw hwn.

DRAFT

# 3. Pwy all fod yn ymddiriedolwr a sut mae ymddiriedolwyr yn cael eu penodi

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod hawl gennych chi fod yn ymddiriedolwr:

- rhaid i chi gael eich penodi'n briodol i fod yn ymddiriedolwr, a dylech chi wybod pryd y daw eich penodiad i ben
- os nad ydych wedi'ch penodi'n briodol, gall penderfyniadau neu weithredoedd yr ymddiriedolwyr greu anghydfodau neu beryglu asedau'r elusen
- mae gweithredu tra'ch bod chi wedi'ch anghymhwyso yn drosedd

## 3.1 Pwy all fod yn ymddiriedolwr

Mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed o leiaf i fod yn ymddiriedolwr elusen sy'n gwmni neu'n SCE. Mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed o leiaf i fod yn ymddiriedolwr unrhyw fath arall o elusen. Ni allwch weithredu fel ymddiriedolwr (rydych wedi'ch anghymhwyso'n gyfreithiol) os ydych:

- wedi'ch anghymhwyso rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni
- os oes collfarn heb ddarfod gennych am drosedd sy'n cynnwys anonestrwydd neu dwyll
- yn fethdalwr (neu'n ddarostyngedig i atafaeliad yn yr Alban), neu os oes cyfansoddiad neu drefniant cyfredol gennych chi (gan gynnwys trefniadau gwirfoddol unigol) â'ch credydwyr
- wedi cael eich diswyddo fel ymddiriedolwr gan y comisiwn neu'r llys oherwydd camymddwyn neu gamreoli

Os ydy'ch elusen am benodi rhywun sydd wedi'i anghymhwyso fel ymddiriedolwr, gallwch wneud cais i'r comisiwn am ildiad hawl. Bydd y comisiwn yn rhoi ildiad hawl dim ond pan fydd hynny'n amlwg er lles gorau'r elusen ac nid oes unrhyw berygl i asedau'r elusen.

Darllen mwy am anghymhwyso ymddiriedolwyr.

Os ydych chi wedi cael eich gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed, ni allwch ymgymryd â rôl a fyddai'n golygu eich bod yn dod i gysylltiad â phobl o'r fath. Mae'n bosib y cewch eich atal rhag bod yn ymddiriedolwr rhai elusennau sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn.

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr reoli risgiau i enw da eu helusen yn ogystal ag i'r bobl y mae'n eu helpu. Os yw'ch elusen yn gweithio gyda grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant, er y caniateir iddynt gael ymddiriedolwr sydd wedi'i wahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dylech ystyried o ddifrif a yw'n briodol.

## 3.2 Sut mae penodiadau ymddiriedolwyr yn dechrau ac yn dod i ben

Mae'n rhaid i chi ddilyn unrhyw reolau yn eich dogfen lywodraethol ynghylch:

- pwy sy'n penodi ymddiriedolwyr newydd
- pryd, a sut, mae ymddiriedolwyr newydd yn cael eu penodi

- pwy all fod yn ymddiriedolwr - gall y ddogfen lywodraethol osod amodau
- pa mor hir mae penodiadau yn para
- sut y gall ymddiriedolwyr ymddiswyddo neu gael eu diswyddo

Os nad oes darpariaethau penodol yn eich dogfen lywodraethol ar gyfer y pethau hyn, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol:

- mae'n rhaid i gwmnïau gydymffurfio â darpariaethau'r gyfraith cwmnïau ar gyfer penodi a diswyddo cyfarwyddwyr
- mae'n rhaid i elusennau anghorfforedig gydymffurfio â darpariaethau Deddf Ymddiriedolwyr 1925
- mae'n rhaid i SCEau gynnwys darpariaethau yn eu cyfansoddiadau ar gyfer penodi ymddiriedolwyr

Os nad yw'r ymddiriedolwyr yn gallu diswyddo neu benodi ymddiriedolwyr, gall y comisiwn ddefnyddio ei bwerau.

Darllen mwy am bwerau cyfreithiol iddiswyddo a phenodi ymddiriedolwyr

Pan fyddwch yn penodi ymddiriedolwyr newydd dylech ystyried y canlynol:

- y sgiliau a'r profiad sydd gan ymddiriedolwyr presennol, a beth yr hoffech ei ychwanegu
- sut mae'r bwrdd yn adlewyrchu profiadau eich buddiolwyr a'u hamrywiaeth
- sicrhau bod ymddiriedolwyr newydd yn gymwys i weithredu
- sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau difrifol gan ymddiriedolwyr newydd
- sut y byddwch yn helpu ymddiriedolwyr newydd i ddeall eu cyfrifoldebau a sut mae'r elusen yn gweithio

Gwybod mwy:

Bwrdd yr ymddiriedolwyr: pobl a sgiliau - sut i gael y bobl iawn sydd â'r sgiliau iawn ar fwrdd eich elusen

Cael hyd i ymddiriedolwyr newydd: yr hyn y mae angen i elusennau wybod

## 3.3 Osgoi camgymeriadau - sicrhau bod penodiadau ymddiriedolwyr yn ddilys

Cofiwch ddilyn y rheolau yn nogfen lywodraethol eich elusen a'r gyfraith wrth benodi ymddiriedolwyr. Os yw penodiadau ymddiriedolwyr yn groes i'r rheolau hyn nid ydynt yn ddilys. Ond gall ymddiriedolwr sydd heb ei benodi'n briodol fod yn atebol o hyd am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Fodd bynnag, gallai dilysrwydd y gweithredoedd a'r penderfyniadau y buont yn ymwneud â nhw gael ei gwestiynu. Mewn elusennau sydd ag aelodaeth mae hyn yn arwain at anghydfodau yn aml. Yn yr achosion gwaethaf, gall niweidio enw da'r elusen, dieithrio cefnogwyr, peryglu asedau'r elusen ac yn y pen draw gadael yr elusen heb y gallu i weithredu.

DRAFT

# 4. Cyflawni dibenion eich elusen

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr elusen yn gwneud yr hyn y mae wedi'i sefydlu i'w wneud. Mae hyn yn golygu y dylech chi:

- allu esbonio sut mae holl weithgareddau'r elusen yn hyrwyddo neu'n cefnogi ei dibenion
- deall sut mae dibenion a gweithgareddau'r elusen o fudd i'r cyhoedd

Mae gwario arian elusennau ar y dibenion anghywir yn fater difrifol iawn; mewn rhai achosion efallai y bydd rhaid i ymddiriedolwyr ad-dalu'r elusen yn bersonol.

## 4.1 Deall amcanion a phwerau'r elusen

Dylai dogfen lywodraethol yr elusen esbonio ei hamcanion yn glir - mae'r rhain yn amlinellu:

- pwy mae'r elusen yn bodoli i roi budd iddynt
- sut y byddant yn cael budd (beth fydd yr elusen yn ei wneud iddyn nhw)
- unrhyw drefn blaenoriaeth i'r gwasanaethau a'r buddiannau y mae'r elusen yn eu darparu
- unrhyw gyfyngiadau ar yr hyn y gall yr elusen ei wneud neu pwy y gall ei helpu (daearyddol neu ffiniau eraill, neu gymwysterau penodol y mae'n rhaid i'r buddiolwyr eu bodloni)

Dylech sicrhau eich bod chi'n deall yr amcanion, beth y maent yn ei olygu yn ymarferol, a pha bwerau sydd gan yr elusen i'w cyflawni.

Gallai'r amcanion fod yn eithaf eang a chyffredinol, neu gallant bennu'r gwasanaethau neu'r gweithgareddau y bydd yr elusen yn eu darparu.

Cewch ragor o wybodaeth am ddogfennau llywodraethol yn rhan 5 y canllaw hwn.

Mae'n rhaid i bopeth y mae'r elusen ei wneud gyfrannu at gyflawni ei dibenion. Dylech ystyried yn rheolaidd pa mor effeithiol y mae gweithgareddau'r elusen, a oes ffyrdd gwell o gyflawni dibenion yr elusen, ac unrhyw ganlyniadau i newid beth mae'r elusen yn ei wneud.

## 4.2 Budd cyhoeddus

Mae'n rhaid i bob elusen fod er budd y cyhoedd: Mae'n rhaid i chi ystyried canllawiau budd cyhoeddus PB1, PB2 a PB3 y comisiwn wrth wneud penderfyniadau y maent yn berthnasol iddynt. Byddai hyn yn cynnwys adolygu gweithgareddau'r elusen neu ystyried rhai newydd.

Mae budd cyhoeddus yn rhan o'r hyn y mae'n ei olygu:

- i fod yn elusen - cael dibenion elusennol yn unig er budd y cyhoedd
- gweithredu fel elusen - cyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd
- adrodd ar waith yr elusen - esbonio sut mae'r ymddiriedolwyr wedi cyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd

DRAFT

Dylech chi ddeall, a gallu esbonio:

- beth mae'r elusen yno i'w gyflawni - ei 'diben'
- sut mae diben yr elusen yn fuddiol - dyna'r 'agwedd budd' ar fudd cyhoeddus
- sut mae diben yr elusen yn rhoi budd i'r cyhoedd neu ran ddigonol o'r cyhoedd - yr 'agwedd gyhoeddus' ar fudd cyhoeddus
- sut y bydd yr ymddiriedolwyr yn cyflawni (neu'n 'hyrwyddo') ddiben yr elusen er budd y cyhoedd

DRAFFT

# 5. Cydymffurfio â'ch dogfen lywodraethol a'r gyfraith

Rhaid i chi:

- wneud yn siŵr bod yr elusen yn cydymffurfio â'i dogfen lywodraethol
- cydymffurfio â gofynion y gyfraith elusennau a chyfreithiau eraill sy'n gymwys i'ch elusen

Nid oes rhaid i chi fod yn arbenigwr cyfreithiol, ond dylech gymryd camau rhesymol i gael gwybod am ofynion cyfreithiol.

## 5.1 Dogfen lywodraethol eich elusen

Dylai fod dogfen lywodraethol gan bob elusen sy'n datgan yn glir:

- beth mae'r elusen yn bodoli i'w wneud (ei hamcanion)
- pa bwerau sydd ganddi i hyrwyddo ei hamcanion
- pwy yw'r ymddiriedolwyr, beth yw'r niferoedd lleiaf a mwyaf a sut y cânt eu penodi
- os oes aelodau gan yr elusen, pwy all fod yn aelod ohoni
- rheolau am gyfarfodydd ymddiriedolwyr (ac aelodau), sut y cânt eu trefnu a'u cynnal; sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, ac ati
- sut i newid y ddogfen lywodraethol neu gau'r elusen

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr elusen (a'r ymddiriedolwyr) yn cydymffurfio â'r ddogfen lywodraethol. Gall fod rheolau sy'n cyfyngu ar sut y gellir defnyddio'r pwerau, pwy all bleidleisio mewn cyfarfodydd, neu pa reolau y gellir eu newid. Felly dylai fod copi gan bob ymddiriedolwr o'u dogfen lywodraethol a dylent ei ddarllen. Os nad oes copi gennych chi, neu nid ydych yn gwybod beth yw e, gofynnwch i'ch cyd-ymddiriedolwyr. Os nad oes copi ganddynt, fel arfer gall y comisiwn ddarparu un (os yw'ch elusen yn elusen gofrestredig).

Mae'ch dogfen lywodraethol yn hanfodol i'ch elusen. Efallai y bydd angen i chi ei hadolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei bod yn parhau i ateb anghenion yr elusen. Cewch ragor o wybodaeth am hyn yn rhan 10 y canllaw hwn.

Darllen mwy am ddogfennau llywodraethol.

## 5.2 Y gyfraith elusennau - gofynion cofrestru, cyfrifyddu ac adrodd

Mae'n rhaid i elusennau a sefydlwyd yng Nghymru a Lloegr gofrestru gyda'r comisiwn oni bai eu bod nhw'n:

- elusennau sydd wedi'u hesgusodi
- wedi'u heithrio rhag cofrestru, neu
- yn fach iawn (yn is na'r trothwy incwm blynyddol ar gyfer cofrestru gorfodol, sef £5,000 ar hyn o bryd) ac nid yn SCE

I gael gwybod a oes angen i'ch elusen gofrestru.

DRAFT

Mae'n rhaid i bob elusen gadw cofnodion ariannol priodol a pharatoi cyfrifon blynyddol.

Mae'n rhaid i bob elusen gofrestredig:

- roi gwybod i'r comisiwn am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth ar y gofrestr, gan gynnwys manylion yr ymddiriedolwyr a newidiadau i'r ddogfen lywodraethol
- anfon ffurflen flynyddol (neu ddiweddariad blynyddol) a gwybodaeth arall i'r Comisiwn

Mae'r gofynion cyfrifyddu ac adrodd ychwanegol (e.e. a oes rhaid ffeilio cyfrifon ac adroddiadau blynyddol) yn amrywio yn dibynnu ar faint yr elusen.

Efallai y bydd rhaid i elusennau sydd wedi'u hesgusodi anfon gwybodaeth am gyfrifon i'w prif reoleiddiwr.

Darllen mwy am ofynion cyfrifyddu ac adrodd ar gyfer elusennau.

Mae'n rhaid i elusen gofrestredig sydd ag incwm o fwy na £10,000 yn ei blwyddyn ariannol ddiwethaf nodi ei bod yn elusen gofrestredig ar unrhyw ddogfennau apêl ac ar nifer o'i dogfennau ariannol, gan gynnwys sieciau, anfonebau a derbyniadau. Nid oes rhaid i chi nodi rhif cofrestru'r elusen, ond mae'n arfer da i wneud hynny.

## 5.3 Cyfreithiau a rheoliadau eraill

Mae'n rhaid i elusennau a'u hymddiriedolwyr gydymffurfio ag amrywiaeth o gyfreithiau a rheoliadau eraill yn dibynnu ar yr hyn y mae'r elusen yn ei wneud, ble y mae'n gweithio a sut y mae wedi'i sefydlu. Mae rhai cyfreithiau y mae'n rhaid i bob elusen gydymffurfio â nhw, fel y gyfraith cydraddoldeb. Dylech wybod pa gyfreithiau sy'n gymwys i'ch elusen, er enghraifft os yw'n:

- gwmni, SCE neu'n gymdeithas budd cymunedol
- cyflogi staff
- berchen ar adeiladau neu gerbydau
- darparu:
  - cyngor cyfreithiol, ariannol neu broffesiynol arall
  - tai neu lety
  - gwasanaethau meddygol neu ofal
- gweithio yn yr Alban, Gogledd Iwerddon neu dramor mewn systemau cyfreithiol a rheoleiddiol gwahanol
- gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed
- ymgymryd â gweithgareddau sy'n amodol ar reoliadau, megis codi arian, neu gadw data personol ar aelodau neu gefnogwyr

Nid yw'r comisiwn yn disgwyl i chi fod yn arbenigwr cyfreithiol, ond dylech gymryd camau rhesymol i gael gwybod am ofynion cyfreithiol. Gallai hyn gynnwys ceisio cyngor annibynnol gan unigolyn cymwysedig addas. Dylai fod systemau a gweithdrefnau gennych yn eu lle hefyd i sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

Canfod cyfreithiwr – Cymdeithas y Gyfraith

Cyngor cyfreithiol i elusennau bach - LawWorks



DRAFT

## 5.4 Osgoi camgymeriadau - bod yn gyfarwydd â'ch dogfen lywodraethol

Os nad ydych yn dilyn y ddogfen lywodraethol, gallai'r elusen ymgymryd â gweithgareddau y tu allan i'w hamcanion. Gallai methu â dilyn gweithdrefnau, neu gymryd camau nad oes ganddi'r pŵer i'w cymryd. Gallai gweithredoedd a phenderfyniadau fod yn annilys a gorfod cael eu gwrthdroi o ganlyniad. Gallai asedau elusennau gael eu colli, a byddai'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol.

Os nad ydych yn dilyn rheolau ynghylch pwy all fod yn aelod neu'n ymddiriedolwr, neu sut i drefnu a rhedeg cyfarfodydd, mae hyn yn aml yn arwain at anghydfodau sy'n gallu atal yr elusen rhag gweithredu'n effeithiol.

DRAFT

# 6. Gweithredu er lles gorau eich elusen

Rhaid i chi:

- wneud beth fydd yn galluogi'r elusen i gyflawni ei dibenion orau, nawr ac yn y dyfodol
- gwneud penderfyniadau cytbwys yn seiliedig ar wybodaeth ddigonol, gan ystyried y tymor hir yn ogystal â'r tymor byr
- osgoi rhoi eich hun mewn sefyllfa lle mae'ch dyletswydd i'ch elusen yn gwrthdaro â'ch buddiannau personol
- peidio â derbyn unrhyw fudd gan yr elusen oni bai ei fod wedi'i awdurdodi'n briodol ac yn amlwg er lles yr elusen

## 6.1 Deall buddiannau'r elusen

Mae gweithredu er lles gorau'r elusen yn golygu gwneud beth mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu fydd yn cyflawni'r dibenion elusennol yn fwyaf effeithiol. Nid yw'n ymwneud â;

- gweithredu er budd yr elusen fel sefydliad
- buddiannau'r ymddiriedolwyr neu'r staff
- buddiannau personol buddiolwyr unigol

Dylech ystyried anghenion yn y dyfodol yn ogystal ag anghenion presennol, gan gynnwys am faint y dylai'ch elusen barhau. Gall y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni nodau'r elusen gynnwys uno ag elusen arall neu wario'r cyfan o'i hadnoddau a chau.

## 6.2 Gwneud penderfyniadau

Mae gwneud penderfyniadau yn un o'r rhannau pwysicaf o rôl yr ymddiriedolwr. Mae rhai penderfyniadau yn syml, ond gall eraill fod yn gymhleth neu'n bellgyrhaeddol eu canlyniadau. Rydych chi a'ch cyd-ymddiriedolwyr yn gyfrifol am benderfynu pa weithgareddau y bydd yr elusen yn ymgymryd â nhw, pa gronfeydd ac adnoddau y bydd eu hangen arni, sut y bydd yn eu cael nhw a sut y bydd yn eu defnyddio nhw.

Pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau am eich elusen, mae'n rhaid i chi:

- weithredu o fewn eich pwerau
- gweithredu mewn ewyllys da a dim ond er lles eich elusen
- sicrhau bod digon o wybodaeth gennych chi, gan geisio unrhyw gyngor sydd ei angen arnoch
- rhoi sylw i'r holl ffactorau perthnasol
- anwybyddu unrhyw ffactorau amherthnasol
- delio â gwrthdaro buddiannau
- gwneud penderfyniadau sydd o fewn yr ystod o benderfyniadau y gallai corff ymddiriedolwyr rhesymol eu gwneud yn yr amgylchiadau

DRAFT

Bydd dilyn yr egwyddorion hyn yn eich helpu i sicrhau eich bod yn gweithredu o fewn eich pwerau (y pethau y mae'ch dogfen lywodraethol yn caniatáu i chi wneud) ac amcanion eich elusen. Mae hefyd yn bwysig cofnodi sut gwnaethoch chi'r penderfyniadau pwysig rhag ofn y bydd angen i chi eu hadolygu neu eu hesbonio nhw yn y dyfodol.

Darllen mwy am wneud penderfyniadau.

## 6.3 Gwrthdaro buddiannau

Mae gwrthdaro buddiannau yn unrhyw sefyllfa lle y gallai'ch buddiannau neu deyrngarwch personol, neu gallai ymddangos eu bod, yn eich atal chi rhag gwneud penderfyniad er lles yr elusen yn unig. Er enghraifft, os ydych chi (neu eich gŵr/gwraig neu blentyn);

- yn cael tâl gan yr elusen am nwyddau neu wasanaethau, neu fel gweithiwr
- gwneud benthyciad i'r elusen
- berchen ar fusnes sy'n llunio contract â'r elusen
- defnyddio gwasanaethau'r elusen
- arwyddo rhyw drafodiad ariannol arall â'r elusen

Hyd yn oed pan na fyddwch yn cael unrhyw fudd ariannol, gallech chi gael gwrthdaro teyrngarwch. Er enghraifft, os oes deliadau busnes gan eich elusen gyda'ch cyflogwr, ffrind, neu elusen arall lle rydych yn ymddiriedolwr:

Mae hyn yn golygu:

1. y dylech chi adnabod, a datgan gwrthdaro buddiannau
2. rhaid i chi atal y gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar y penderfyniad
3. dylech gofnodi'r gwrthdaro buddiannau a sut y cafodd ei drin

Bydd y ffordd rydych yn atal y gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar y penderfyniad yn dibynnu ar yr amgylchiadau a difrifoldeb y gwrthdaro buddiannau. Yn achos y gwrthdaro buddiannau mwyaf difrifol, gall olygu benderfynu peidio â bwrw ymlaen â chynnig neu hyd yn oed ymddiswyddo fel ymddiriedolwr. Fel arfer bydd yn golygu na fydd yr ymddiriedolwr(wyr) sydd â'r gwrthdrawiad yn cymryd rhan yn y drafodaeth neu'r broses gwneud penderfyniad.

Darllen mwy am wrthdaro buddiannau.

## 6.4 Taliadau a buddiannau eraill i ymddiriedolwyr

Pan fyddwch yn ymddiriedolwr, rydych yn gwirfoddoli eich gwasanaethau fel arfer ac ni chewch unrhyw dâl am eich gwaith. Gelwir hyn yr egwyddor wirfoddol. Ni all elusennau dalu eu hymddiriedolwyr fel arfer. Gallwch hawlio treuliau rhesymol megis teithio a gofal plant - ni ddylai gweithredu fel ymddiriedolwr olygu bod ar eich colled.

Mewn rhai amgylchiadau, nid yw ymddiriedolwyr yn cael taliadau neu fuddiannau eraill gan eu helusen. Mae hyn wedi'i ganiatáu dim ond os:

- yw'r budd wedi'i awdurdodi'n benodol gan y Ddeddf Elusennau (neu ddeddfwriaeth berthnasol arall), y ddogfen lywodraethol, y comisiwn neu'r llysoedd

DRAFT

- hyd yn oed os yw'r budd wedi'i awdurdodi, mae ei ganiatáu yn amlwg er lles gorau'r elusen
- mae'r gwrthdaro buddiannau wedi'i reoli; felly yn y rhan fwyaf o achosion ni all yr ymddiriedolwr sydd â'r gwrthdaro gymryd rhan yn y penderfyniad a dim ond lleiafrif o ymddiriedolwyr all gael budd

Mae'r cyfyngiadau hyn yn gymwys i ymddiriedolwyr (neu ŵr neu wraig neu blentyn ymddiriedolwr) sy'n cael budd trwy:

- wneud gwaith un-tro ar gyfer yr elusen, e.e. gwaith adeiladu neu wasanaethau arbenigol, oherwydd mae'r ymddiriedolwr yn cynnig gwerth gwell na chyflenwyr eraill
- cael eu cyflogi gan yr elusen (neu gan is-gwmni masnachu sydd ym mherchnogaeth yr elusen)
- cael eu talu i weithredu fel ymddiriedolwr; mae hyn yn anarferol iawn a dim ond wedi'i ganiatáu mewn amgylchiadau eithriadol
- arwyddo trafodiad eiddo (neu unrhyw drafodiad ariannol arall) gyda'r elusen - gelwir hyn yn hunan-ddelio

Darllen mwy am dalu ymddiriedolwyr

Canfod a oes angen caniatâd arnoch, a sut i wneud cais amdano

## 6.5 Osgoi camgymeriadau - delio â gwrthdaro buddiannau

Yn aml bydd problemau mewn elusennau wedi'u hachosi gan reoli gwrthdaro buddiannau yn wael. Mae gwrthdaro buddiannau (a gwrthdaro teyrngarwch) yn eithaf cyffredin mewn elusennau. Os yw'n ymddangos bod gwrthdaro buddiannau gan un o'ch cyd-ymddiriedolwyr dylech ddweud hynny; nid ydych yn cwestiynu eu hunplygrwydd drwy wneud hynny.

Os nad ydych yn adnabod ac yn delio â gwrthdaro buddiannau:

- gall penderfyniad yr ymddiriedolwyr fod yn annilys a gallai gael ei herio
- efallai y bydd rhaid i ymddiriedolwyr ad-dalu unrhyw daliad y derbyniant gan yr elusen, hyd yn oed os yw'r elusen hefyd wedi elwa o'r trefniant
- efallai y bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud iawn am unrhyw golled y mae'r elusen yn ei ddioddef
- bydd y comisiwn yn cymryd camau rheoleiddio pan fydd angen i ddiogelu'r elusen rhag niwed pellach neu i ddelio ag unrhyw gamymddygiad neu gamreoli gan yr ymddiriedolwyr

## 6.6 Osgoi camgymeriadau - bod yn barod i herio rhagdybiaethau

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr wneud penderfyniadau er lles yr elusen yn unig. Ni ddylent ganiatáu i'w hunain gael eu darbwyllo gan ragfarnau personol neu bersonoliaethau cryf.

Mae'n arfer da i recriwtio ymddiriedolwyr ar sail y sgiliau, y profiad a'r cefndir y maent yn eu cyfrannu at yr elusen. Mewn rhai achosion cânt eu penodi gan aelodau, buddiolwyr neu grwpiau eraill sydd â budd yn yr elusen. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr a benodir fel hyn weithredu er lles yr elusen yn unig; nid eu rôl nhw yw cynrychioli neu lobïo ar ran y grŵp neu'r corff a'u penododd.

DRAFT

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr weithredu gyda'i gilydd (ar y cyd). Rhan o'u rôl yw adolygu cynigion yn feirniadol ac yn wrthrychol a herio rhagdybiaethau wrth wneud penderfyniadau. Ni ddylai unrhyw un allu cyfarwyddo'r ymddiriedolwyr neu yrru penderfyniadau trwyddo heb drafodaeth ddigonol. Nid yw ymddiriedolwyr sy'n ildio i farn a phenderfyniadau eraill yn cyflawni eu dyletswyddau. Gallant fod yn atebol am unrhyw dor-ddyletswydd sy'n digwydd o ganlyniad i'w diffyg gweithredu.

Os ydych chi'n anghytuno'n gryf â phenderfyniad y mae'ch cyd-ymddiriedolwyr wedi'i wneud, dylech ofyn i'ch anghytundeb gael ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod. Os ydych chi'n meddwl bod eich cyd-ymddiriedolwyr yn gweithredu'n amhriodol, dylech gysylltu â'r comisiwn.

DRAFFT

# 7. Rheoli adnoddau eich elusen mewn modd cyfrifol

Mae'n rhaid i chi weithredu'n gyfrifol, yn rhesymol ac yn onest. Mae'n rhaid i chi:

- sicrhau bod asedau'r elusen yn cael eu defnyddio i gefnogi neu ymgymryd â'i dibenion yn unig
- peidio â chymryd risgiau amhriodol gydag asedau neu enw da'r elusen
- peidio â gor-ymrwymo'r elusen; ni ddylech ganiatáu iddi fod yn ansolfent
- cymryd gofal arbennig wrth fuddsoddi neu fenthyca

Dylech roi gweithdrefnau a mesurau diogelwch priodol yn eu lle, cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y rhain yn cael eu dilyn a pheidio â dibynnu neu ymddiried gormod mewn unigolion. Fel arall mae perygl y bydd yr elusen yn agored i dwyll neu ladrad, neu fathau eraill o gamddefnydd.

## 7.1 Rheoli risgiau

Mae risgiau yn golygu unrhyw ddigwyddiadau posibl a allai atal eich elusen rhag cyflawni ei dibenion neu ei strategaethau. Mae'r rhan fwyaf (os nad pob) elusen yn wynebu rhai risgiau. Bydd y risgiau y gallai'ch elusen eu hwynebu yn dibynnu ar ei maint, ei chyllid a'i gweithgareddau, ymysg ffactorau eraill. Mae rheoli eiddo, cyflogi staff, defnyddio gwirfoddolwyr, neu weithredu newid i gyd yn cynnwys elfen o risg.

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr weithredu'n gyfrifol, ond nid yw hyn yn golygu na ddylent byth cymryd risg. Rheoli risg yw'r broses o adnabod ac asesu risgiau, a phenderfynu sut i ddelio â nhw. Gall gynnwys elfen o gymryd risg mewn modd cyfrifol, ac mae'n ganolog i'r ffordd y mae ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau.

Mae canllaw'r comisiwn ar reoli risg yn amlinellu hanfodion delio â risgiau ac mae'n cynnwys model rheoli risg wedi'i ffurfio o'r camau canlynol:

1. sefydlu polisi risg
2. adnabod risgiau (beth allai fynd o'i le)
3. asesu risgiau (pa mor debygol ydyw, a pha mor wael y byddai)
4. gwerthuso pa gamau i'w cymryd (e.e. ei osgoi, ei drosglwyddo, ei yswirio, ei dderbyn)
5. adolygu, monitro ac asesu'n achlysurol

Darllen mwy am reoli risgiau a diogelu elusennau rhag niwed.

## 7.2 Cael y cronfeydd y mae eu hangen ar eich elusen (cynhyrchu incwm)

Mae'r rhan fwyaf o elusennau yn cael eu cronfeydd drwy un neu ragor o'r dulliau canlynol:

- codi arian (gofyn am roddion neu grantiau)
- masnachu (gwerthu nwyddau neu wasanaethau)
- buddsoddi
- prydlesu neu osod tir neu adeiladau

DRAFT

Mae'n rhaid i chi benderfynu sut y bydd eich elusen yn codi arian. Dylech chi ystyried:

- faint o arian y mae'n rhaid i chi godi
- costau, buddiannau a risgiau gwahanol ddulliau o gynhyrchu incwm
- unrhyw ofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i'r elusen gydymffurfio â nhw
- unrhyw faterion posibl ynghylch enw da
- oes angen i chi geisio cyngor

Os yw'ch elusen eisoes yn derbyn cronfeydd, dylech chi sicrhau bod yr incwm a gynhyrchir yn gweithio'n briodol, yn cydymffurfio â'r gyfraith ac nid yw'r elusen yn agored i unrhyw risg gormodol.

### (1) Codi arian (gofyn am roddion neu grantiau)

Mae hyn yn cwmpasu ystod o weithgareddau gan gynnwys:

- casgliadau stryd ac o dŷ i dŷ a blychau casglu
- digwyddiadau codi arian (gan gynnwys ffeiriau a rafflau)
- codi arian drwy gymynrodd
- gwneud cais am grantiau
- defnyddio codwyr arian proffesiynol

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau sy'n gymwys i rai dulliau codi arian (fel cael trwyddedau ar gyfer casgliadau cyhoeddus). Dylech hefyd ddilyn arfer da, fel arall gall enw da'r elusen gael ei niweidio a gall atal rhoddwyr posibl rhag cyfrannu.

Gwybod mwy am godi arian

Efallai y bydd eich elusen yn gallu denu arian gan elusennau, sefydliadau neu unigolion sydd am fuddsoddi am resymau elusennol neu ddyngarol. Gelwir hyn yn 'fuddsoddi cymdeithasol'. Dylech ystyried ceisio cyngor priodol cyn ymgymryd â gweithgaredd o'r fath. Gwybod mwy.

### (2) Masnachu (gwerthu nwyddau neu wasanaethau)

Gall elusen ymgymryd â masnachu sydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'i dibenion. Gelwir hyn yn 'fasnachu prif ddiben' ac mae'n cynnwys:

- gwerthu nwyddau wedi'u gwneud gan fuddiolwyr
- codi ffioedd ar gyfer gweithgareddau neu wasanaethau'r elusen
- darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n cefnogi dibenion eich elusen, o dan gytundebau cyllido â chyrff cyhoeddus

Gall pob elusen wneud hyn. Nid oes unrhyw derfyn ar faint o fasnachu prif ddiben y gall elusen ei wneud. Mae wedi'i esgusodi rhag treth incwm a threth gorfforaeth.

Mae unrhyw fasnachu heb ei gysylltu â dibenion yr elusen yn 'fasnachu heb fod yn brif ddiben'. Mae terfynau caeth ar fasnachu heb fod yn brif ddiben er mwyn cynnal statws elusennol ac eithriad treth. Efallai y bydd rhaid i chi sefydlu is-gwmni masnachu i gyflawni masnachu heb fod yn brif ddiben sylweddol neu barhaol.

Gwybod mwy am fasnachu

DRAFT

### (3) Buddsoddi

Gallwch fuddsoddi arian eich elusen, naill ai er mwyn cynhyrchu incwm iddi wario ar ei dibenion neu fel ffordd o'u hyrwyddo'n uniongyrchol. Bydd rhai dulliau buddsoddi yn gwneud y ddau beth.

Pan fyddwch yn buddsoddi cronfeydd eich elusen, yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i chi:

- ddilyn unrhyw gyfyngiadau ar fuddsoddiadau yn eich dogfen lywodraethol
- sicrhau eich bod yn gwybod beth rydych yn ei wneud pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau buddsoddi - ceisiwch gyngor gan unigolyn cymwysedig pan fydd angen
- rheoli'r risg i gronfeydd eich elusen; dylech ystyried a ddylai fod cymysgedd o fuddsoddiadau gennych chi yn hytrach na dibynnu ar un buddsoddiad mawr

Dylai fod polisi buddsoddi gennych chi ar gyfer yr elusen sy'n cwmpasu:

- hyd a lled pwerau buddsoddi'r elusen
- amcanion buddsoddi
- risg buddsoddi
- mathau arbennig o fuddsoddiad, fel buddsoddiad moesegol neu fuddsoddiad cymdeithasol
- pwy all wneud penderfyniadau - ymddiriedolwyr, gweithwyr, rheolwyr buddsoddi
- meincnodau, targedau a gofynion adrodd

Defnyddiwch eich polisi i roi gwybodaeth i'ch rheolwyr cyllido a phobl sydd â diddordeb yn yr elusen. Os yw'ch elusen yn gofrestredig ac mae'n rhaid i'w chyfrifon gael eu harchwilio, mae'n rhaid i chi adrodd ar eich polisi buddsoddi yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr.

Gwybod mwy am elusennau a materion buddsoddi.

## 7.3 Rheoli cronfeydd a'u cadw nhw'n ddiogel

Rydych chi a'ch cyd-ymddiriedolwyr yn gyfrifol am arian eich elusen. Dylai fod prosesau effeithiol gan eich elusen ar gyfer trin arian, i helpu i osgoi penderfyniadau gwael a chamgymeriadau damweiniol, yn ogystal â thwyll a lladrad bwriadol:

- gosodwch gyllideb a chadwch olwg arni
- rhowch bolisïau a gweithdrefnau clir yn eu lle ar gyfer delio â'r arian sy'n dod i mewn ac sy'n mynd allan
- cadwch gofnodion cywir o incwm a gwariant
- rhowch reolaethau ariannol cadarn ac effeithiol yn eu lle
- diogelwch yr elusen rhag troseddau ariannol fel twyll neu ladrad
- rhowch fesurau diogelwch yn eu lle ar gyfer arian, asedau a staff os yw'r elusen yn gweithredu y tu allan i'r DU
- dylai fod polisi cronfeydd wrth gefn priodol gennych chi

Os yw rhywbeth yn mynd o'i le, dylech roi gwybod i'r comisiwn ac (os yw'n briodol) yr heddlu. Gweler yr adran ar beth i'w wneud os yw rhywbeth yn mynd o'i le yn rhan 8 y canllaw hwn.

DRAFT

Gwybod mwy am reoli cronfeydd a'u cadw nhw'n ddiogel.

## 7.4 Rheoli eiddo (tir ac adeiladau)

Os yw'r elusen yn berchen ar dir neu adeiladau neu'n eu rhentu, dylech sicrhau bod y rhain wedi'u dal yn enw'r elusen. Dylech wybod ym mha gyflwr y mae'r tir neu'r adeiladau, a ydynt yn cael eu defnyddio'n briodol, ac a oes yswiriant digonol gennych chi.

Mae'n rhaid i eiddo gael ei gynnal yn briodol. Mae'n rhaid i'r eiddo rydych chi'n ei ddefnyddio at ddibenion yr elusen fod yn briodol ac yn addas i'r pwrpas. Os ydych chi'n prydlesu unrhyw eiddo i gynhyrchu incwm, dylech adolygu'n rheolaidd a yw dal yn fuddsoddiad da i'r elusen, ac a yw telerau'r brydles er lles yr elusen.

Mae penderfyniadau am eiddo yn bwysig, felly meddyliwch am y cyngor a'r wybodaeth a allai fod eu hangen arnoch.

Gall y rhan fwyaf o elusennau brynu, gwerthu neu brydlesu tir pan fydd angen, ond gall dogfen lywodraethol elusen bennu bod rhaid defnyddio tir neu adeiladau at ddiben arbennig. Gelwir hyn yn dir dynodedig (neu'n 'dir specie'). Mae amodau arbennig yn gymwys i brydlesu neu werthu tir dynodedig.

Gallai tir sy'n perthyn i elusen fod yn waddol parhaol. Mae hyn yn rhoi cyfyngiadau ar ddefnyddio'r elw gwerthu.

Mae'n rhaid i chi gael caniatâd ar gyfer gwerthu neu brydlesu i neu gan ymddiriedolwyr neu rywun sydd â chysylltiad agos â'r ymddiriedolwr.

Gwybod mwy am brynu, gwerthu neu brydlesu eiddo elusen, gan gynnwys tir dynodedig a gwaddol parhaol.

## 7.5 Rheoli staff a gwirfoddolwyr

Mae bron pob elusen yn dibynnu ar wirfoddolwyr neu staff i wneud ei gwaith.

Fel rhan o'ch cyfrifoldeb am yr elusen, mae gennych chi gyfrifoldebau am unrhyw wirfoddolwyr neu staff. Dylech chi sicrhau bod:

- pobl yn glir ynghylch beth y disgwylir iddynt ei wneud
- pobl yn gweithio'n ddiogel
- yr elusen yn cydymffurfio â'r gyfraith (e.e. y gyfraith cyflogaeth berthnasol a darpariaethau'r gyfraith iechyd a diogelwch)
- pobl yn gwybod beth i'w wneud os oes problem

Dylech sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau priodol gan yr elusen yn eu lle, bod staff a gwirfoddolwyr yn cael unrhyw hyfforddiant y mae ei angen arnynt, a bod pobl yn gwybod bod rhaid iddynt gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau.

Darllen mwy am reoli gwirfoddolwyr

Darllen mwy am reoli gweithwyr

DRAFT

## 7.6 Osgoi camgymeriadau - peidio ymddiried gormod

Gall pethau mynd o'i le pan fydd ymddiriedolwyr yn rhoi gormod o ffydd mewn unigolion, ac nid ydynt yn gweithredu digon o fesurau diogelwch i sicrhau atebolrwydd. Gall hyn arwain at yr elusen yn dioddef twyll neu ladrad, neu fuddiolwyr yn cael eu cam-drin. Gallai'r mathau hyn o ddigwyddiadau achosi niwed difrifol i enw da'r elusen.

Dylai fod rheolaethau ariannol priodol gan bob elusen sy'n sicrhau bod mwy nag un person yn derbyn incwm ac yn awdurdodi gwariant. Dylai'r rhain gwmpasu pob dull talu y mae'r elusen yn ei ddefnyddio - siec, arian, cerdyn credyd, cerdyn talu, cerdyn debyd, cerdyn rhagdaledig neu ddulliau electronig eraill. Mae trin arian yn creu mwy o risg, felly ceisiwch osgoi taliadau arian lle bynnag y bo'n bosibl.

Pan fydd pobl eraill yn codi arian ar ran yr elusen, boed yn wirfoddolwyr neu'n weithwyr proffesiynol cyflogedig, dylech sicrhau bod rheolaethau priodol yn eu lle ar gyfer yr arian a godir. Mae hyn yn sicrhau bod yr elusen yn derbyn y swm llawn sy'n ddyledus.

Darllen mwy am reolaethau ariannol

Mae'n rhaid i elusennau sydd â chysylltiad uniongyrchol â phlant neu oedolion agored i niwed gael polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol yn eu lle, gan gynnwys cydymffurfio â gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Darllen mwy am ddiogelu grwpiau agored i niwed

Os yw rhywbeth difrifol yn mynd o'i le, dylech weithredu ar unwaith i ddelio â hyn ac adrodd amdano i'r comisiwn. Cewch wybod rhagor yn adran 8.3 o'r canllaw hwn.

DRAFT

# 8. Gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol

Fel rhywun sy'n gyfrifol am lywodraethu'r elusen:

- mae'n rhaid i chi ddefnyddio gofal a sgil rhesymol, defnyddio eich sgiliau a'ch profiad eich hun, neu geisio cyngor pan fydd angen
- rhaid i chi neilltuo digon o amser, meddwl ac ynni i'ch rôl, er enghraifft trwy fynychu cyfarfodydd ymddiriedolwyr

## 8.1 Defnyddio eich sgiliau a'ch profiad eich hun

Dylai ymddiriedolwyr gael eu penodi ar sail y sgiliau, y profiad a'r ymrwymiad y maent yn eu cyfrannu at yr elusen. Dylech ddefnyddio eich sgiliau a'ch profiad i lywio'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a dylent gynnig budd i waith eich elusen. Ar yr un pryd, gallech chi ddysgu sgiliau newydd er mwyn iddo fod yn ffordd o ddatblygu eich sgiliau a'ch profiad eich hun hefyd.

Mae dyletswydd gofal gan ymddiriedolwyr. Mae Deddf Ymddiriedolwyr 2000 yn dweud bod rhaid i ymddiriedolwyr "ddefnyddio'r gofal a'r sgil sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau." Bydd yr hyn sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau yn dibynnu ar unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig y mae'r ymddiriedolwr yn honni sydd ganddo/ganddi. Mae hefyd yn dibynnu a yw rhywun yn gweithredu fel ymddiriedolwr proffesiynol, a beth y byddai'n rhesymol i ddisgwyl i unigolyn o'r fath wybod.

Er bod Deddf Ymddiriedolwyr 2000 yn gymwys i ymddiriedolwyr elusennau anghorfforedig yn unig, mae'r gyfraith yn gosod dyletswyddau tebyg ar gyfarwyddwyr cwmnïau elusennol ac ymddiriedolwyr SCEau (gweler rhan 12 y canllaw hwn). Dylai pob ymddiriedolwr gymhwyso'r ddyletswydd gofal i bob agwedd ar eu gwaith o wneud penderfyniadau am eu helusen.

## 8.2 Ceisio cyngor pan fydd ei angen arnoch

Dylai ymddiriedolwyr gydnabod pan fydd angen arbenigedd neu brofiad arnynt nad oes ganddynt hwy eu hunain. Mae hyn yn arbennig o bwysig pe gallai'r elusen (neu ei eiddo) fod mewn perygl, neu pe byddech efallai yn gweithredu'n groes i'ch dyletswyddau. Er enghraifft:

- prynu neu werthu tir (rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau geisio cyngor gan syrfëwr neu unigolyn cymwysedig arall pan fydd yn gwerthu tir elusen)
- gwneud buddsoddiadau arwyddocaol neu gymhleth
- llunio contractau
- ystyried cymryd camau cyfreithiol

Gall elusennau mwy gyflogi eu cynghorwyr proffesiynol eu hunain; gall y rhan fwyaf o elusennau geisio cyngor yn allanol yn unig.

Darllenwch mwy am sicrhau bod digon o wybodaeth gennych chi

Ffynonellau eraill o gymorth a chyngor

DRAFT

## 8.3 Beth i'w wneud os aiff rhywbeth o'i le

Os aiff rhywbeth o'i le, dylech weithredu'n brydlon ac yn briodol i ddelio â hyn.

- adrodd amdano i'r awdurdodau priodol (gan gynnwys yr heddlu)
- atal neu leihau unrhyw golled neu ddifrod pellach
- ceisio ei atal rhag digwydd eto - adolygu rheolaethau a gweithdrefnau
- ystyried a chynllunio beth y bydd angen i chi ei ddweud efallai i'ch staff, eich aelodau, y cyhoedd neu'r cyfryngau.

Dylech roi gwybod i'r comisiwn am ddigwyddiadau difrifol cyn gynted ag y byddwch yn eu hamau. Mae digwyddiadau difrifol yn cynnwys:

- twyll, lladrad neu'r elusen yn colli swm sylweddol o arian mewn ffordd arall
- rhodd fawr gan ffynhonnell anhysbys
- cysylltiadau â therfysgaeth
- dim polisi gan yr elusen i ddiogelu ei buddiolwyr agored i niwed
- amheuon, honiadau ac achosion o gam-drin buddiolwyr agored i niwed

Pan fyddwch yn adrodd am ddigwyddiad difrifol, dylech roi'r manylion canlynol:

- beth sydd wedi digwydd
- natur y risg
- y camau rydych wedi'u cymryd i ddelio â'r digwyddiad

Bydd hyn yn helpu'r comisiwn i benderfynu pa gamau, os o gwbl, sy'n briodol. Os ydych yn rhoi'r wybodaeth hon pan fyddwch yn dweud wrthym am y digwyddiad, mae'n llai tebygol y bydd rhaid i'r comisiwn ofyn rhagor o gwestiynau.

Pan fydd y comisiwn yn ymwybodol o bryder, bydd yn ystyried difrifoldeb a graddfa'r risg a sut y mae'r ymddiriedolwyr yn delio â'r mater. Os yw'r ymddiriedolwyr yn adrodd am y digwyddiad, bydd hyn yn dangos eu bod yn gweithredu'n rhesymol. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall problemau mewn elusennau gael eu datrys gan yr ymddiriedolwyr eu hunain, weithiau gydag ychydig o gyngor. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion difrifol, efallai y bydd angen i'r comisiwn ymchwilio'n ffurfiol i faterion drwy gychwyn ymchwiliad statudol.

Mae'r comisiwn yn cynnal ymchwiliadau i adnabod ac ymchwilio i bryderon am yr achosion mwyaf difrifol o fethu â chydymffurfio a chamddefnydd mewn elusennau. Mae hyn yn debygol o godi pan fydd y mater ei hun yn ddifrifol ac mae tystiolaeth neu amheuaeth ddifrifol o gamymddygiad neu gamreoli. Gallai'r comisiwn hefyd gychwyn ymchwiliad os oes risg fawr i'r elusen neu i ffydd gyhoeddus mewn elusen yn fwy cyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys pan fydd risg arwyddocaol o gamddefnydd neu niwed i asedau, gwasanaethau neu fuddiolwyr elusen.

Os nad yw ymddiriedolwyr yn rhoi gwybod am ddigwyddiad difrifol, gall y comisiwn benderfynu bod hyn yn achos o gamreoli a chymryd camau rheoleiddio.

Darllen mwy am adrodd am ddigwyddiadau difrifol:

Darllen mwy am sut mae'r comisiwn yn delio â cham-drin a chamreoli mewn elusennau

# 9. Sicrhau bod eich elusen yn atebol

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â gofynion cyfrifyddu ac adrodd statudol. Dylech hefyd:

- fod yn agored ynghylch sut mae'ch elusen yn gweithredu ac yn gwario ei harian
- bod yn barod i ymateb yn agored ac yn onest i bryderon, beirniadaeth neu gwynion am eich elusen
- gallu dangos bod eich elusen yn cydymffurfio â'r gyfraith, yn cael ei rhedeg yn dda ac yn effeithiol
- sicrhau atebolrwydd yn yr elusen, yn enwedig pan fyddwch yn dirprwyo cyfrifoldeb am dasgau neu benderfyniadau arbennig i staff neu wirfoddolwyr

## 9.1 Cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu

Mae'n rhaid i bob elusen baratoi cyfrifon a rhoi copi i unrhyw un sy'n gofyn amdano. (Gallwch godi tâl ar gyfer eich costau). Bydd y comisiwn yn cymryd camau rheoleiddio yn erbyn elusennau sy'n methu â darparu copïau o gyfrifon dro ar ôl tro pan fydd y cyhoedd neu'r rheoleiddiwr yn gofyn am gopi. Mae'r union gyfrifon y mae'n rhaid i'ch elusen eu cynhyrchu yn dibynnu ar yr elusen ac a yw'n gwmni a faint o incwm y mae'n ei dderbyn. Mae rheolau gwahanol yn gymwys i elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Mae'n rhaid i un neu bob un o'r ymddiriedolwyr gymeradwyo a llofnodi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a chyfrifon felly mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wybod beth sy'n ofynnol.

Mae'n rhaid i bob elusen gofrestredig ddarparu gwybodaeth bob blwyddyn i'r comisiwn. Mae'r rheolau yn amrywio yn ôl maint a strwythur eich elusen:

- mae'n rhaid i elusennau cofrestredig gydag incwm o fwy na £25,000 a phob SCE ffeilio copïau o adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, cyfrifon ac adroddiad craffu allanol
- mae'n rhaid i elusennau cofrestredig gydag incwm o fwy na £10,000 a phob SCE baratoi Ffurflen Flynyddol
- dylai pob elusen gofrestredig arall gwblhau a ffeilio ffurflen ddiweddaru

Mae'r comisiwn yn diweddaru cofnod eich elusen yn y gofrestr gyda'r wybodaeth a ddarperir.

Mae methu â chyflwyno cyfrifon a dogfennau ategol i'r comisiwn yn drosedd. Mae'r comisiwn hefyd yn ei ystyried yn fath o gamreoli ac yn gamymddygiad wrth weinyddu'r elusen.

Darllen mwy am gyfrifon

Darllen mwy am ffurflenni blynyddol

Mae'n bosib y bydd rhaid i'ch elusen adrodd i reoleiddwyr eraill hefyd, er enghraifft, os yw ei gweithgareddau yn cynnwys darparu tai cymdeithasol neu ofal cymdeithasol. Mae'n rhaid i gwmnïau gyflwyno eu cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau yn flynyddol.

## 9.2 Bod yn atebol i bobl sydd â budd yn yr elusen

Dylech fod yn barod i ddarparu gwybodaeth am eich elusen. Gwnewch gopïau o ddogfen lywodraethol yr elusen, cyfrifon a gwybodaeth bwysig arall sydd ar gael ar wefan eich elusen.

DRAFT

Dylech hefyd wrando ar yr hyn y mae'ch buddiolwyr, cefnogwyr a chyllidwyr yn ei ddweud, ac ymateb iddo. Defnyddiwch yr wybodaeth hon i wella gwasanaethau'r elusen. Dylai fod gweithdrefnau gennych ar gyfer delio â chwynion. Gwnewch yn siŵr bod y rhain yn hawdd i'w canfod ac yn esbonio'n glir sut i gwyno, y broses ar gyfer trin cwynion a'r amserlenni tebygol.

Gwybod mwy - gweler rhestr wirio rheoli cwynion: atodiad A o Achos i Gwyno?

Dylech allu dangos bod eich elusen yn cydymffurfio â'r gyfraith, ei bod yn cael ei rhedeg yn dda ac yn effeithiol wrth gyflawni ei dibenion. Os na allwch ddangos y pethau hyn, dylech allu esbonio pa gamau rydych yn eu cymryd i roi sylw i unrhyw anawsterau.

Er mwyn adolygu pa mor dda y mae'ch elusen yn ei wneud, gallech chi ddefnyddio:

- cod llywodraethu, e.e. Good Governance: a code for the voluntary and community sector
- safon ansawdd, e.e. PQASSO, neu safle arall wedi'i chymeradwyo gan y comisiwn
- meincnodi (cymharu a dysgu) gyda sefydliad arall
- adolygiad annibynnol gan gynghorydd â chymwysterau addas

Darllen am ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau

## 9.3 Ymddiriedolwyr a dirprwyo

Bydd ymddiriedolwyr yn aml yn dirprwyo gweithgareddau beunyddiol i wirfoddolwyr neu weithwyr. Mae pŵer gan nifer o elusennau i ddirprwyo gwneud penderfyniadau i is-bwyllgorau neu weithwyr uwch hefyd. Gall hyn helpu ymddiriedolwyr i lywodraethu'n fwy effeithiol, ond ni allant ddirprwyo eu cyfrifoldeb terfynol. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr fod yn gyfrifol bob amser am bob penderfyniad sy'n cael ei wneud a phob cam sy'n cael ei gymryd gyda'u hawdurdod nhw.

Dylech amlinellu'n glir yn ysgrifenedig derfynau unrhyw awdurdod dirprwyedig. Dylech hefyd roi gweithdrefnau adrodd clir yn eu lle, er mwyn i chi allu sicrhau bod yr awdurdod dirprwyedig yn cael ei arfer yn briodol. Ni ddylai penderfyniadau risg uchel a newydd gael eu dirprwyo. Dylech chi gytuno ar ganllawiau priodol i helpu i asesu beth sy'n debygol o fod yn risg uchel neu newydd.

Efallai y byddwch yn cael gwybod na ddylai ymddiriedolwyr ymyrryd mewn gweithrediadau bob dydd. Ond mae'n rhaid i ymddiriedolwyr allu sicrhau bod yr awdurdod dirprwyedig yn cael ei arfer yn briodol, trwy weithdrefnau adrodd priodol a gwirio annibynnol.

## 9.4 Osgoi camgymeriadau - gofyn cwestiynau (hyd yn oed rhai 'lletchwith' neu 'dwp')

Rhan o'ch rôl chi yw sicrhau bod pobl yn atebol (gan gynnwys staff, gwirfoddolwyr a chyd-ymddiriedolwyr) am y ffordd y maent yn cyflawni eu rôl neu'n defnyddio adnoddau'r elusen. Gall hyn olygu gofyn cwestiynau treiddgar neu heriol am wybodaeth yng nghyfarfodydd ymddiriedolwyr, neu fod yn barod i ddweud 'Dwi ddim yn deall beth mae hynny'n ei olygu'. Dylech gael gwybodaeth mewn fformat y gallwch chi ei ddeall a'i ddefnyddio. Dylai pob ymddiriedolwr, nid dim ond y trysorydd, allu ystyried a chynnig sylwadau ar wybodaeth ariannol.

Dylai ymddiriedolwyr arfer barn annibynnol, cwestiynu'n adeiladol a herio cynigion. Ni ddylai unrhyw un allu cyfarwyddo'r ymddiriedolwyr neu yrru penderfyniadau trwyddo heb drafodaeth briodol. Nid yw ymddiriedolwyr sy'n ildio i farn a phenderfyniadau eraill yn cyflawni eu dyletswyddau.

# 10. Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Dylech ystyried yr angen presennol a'r angen yn y dyfodol am waith eich elusen. Dylech chi:

- gynllunio beth fydd eich elusen yn ei wneud
- cyllidebu ar gyfer yr adnoddau y bydd eu hangen ar eich elusen i gyflawni ei chynlluniau
- adolygu beth mae'ch elusen yn ei wneud a sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol

## 10.1 Cynllunio at y dyfodol

Rydych chi a'ch cyd-ymddiriedolwyr yn gyfrifol am benderfynu beth fydd yr elusen yn ei wneud, yn y tymor byr a'r tymor hir, i gyflawni'r hyn y cafodd ei sefydlu i'w wneud. Mae hyn yn golygu eich bod chi'n gyfrifol am osod nodau, amcanion a chyfeiriad strategol yr elusen.

Mae cynllunio wedi'i gysylltu'n agos â gwneud penderfyniadau a rheoli risgiau. Gwybod mwy.

## 10.2 Cyllidebu

Pan fyddwch yn meddwl am yr hyn y bydd yr elusen yn ei wneud yn ystod y cyfnod cynllunio nesaf, mae'n rhaid i chi hefyd weithio allan pa gronfeydd ac adnoddau eraill y bydd eu hangen arni ac o ble y bydd yr elusen yn cael y rhain. Gall elusen gyflawni ei nodau dim ond os yw'n rheoli ei harian yn briodol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi gynllunio a monitro ei hincwm a'i gwariant er mwyn iddi allu cyflawni ei nodau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

Darllen mwy:

Rheoli adnoddau

Anawsterau ariannol mewn elusennau

## 10.3 Gwnewch yn siŵr bod amcanion a dogfen lywodraethol eich elusen yn gyfoes

Rhan o rôl yr ymddiriedolwyr yw adolygu gwaith yr elusen a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol. O bryd i'w gilydd, bydd hyn yn golygu edrych ar amcanion yr elusen a sicrhau eu bod nhw'n dal i fod yn briodol, yn berthnasol ac yn gyfoes.

Mae amgylchiadau'n newid dros amser a gallai hyn effeithio ar y canlynol:

- a yw'r grŵp buddiolwyr y cafodd yr elusen ei sefydlu i'w helpu yn dal i fodoli
- a yw'r angen y cafodd yr elusen ei sefydlu i'w fodloni yn dal i fodoli
- gall fod ffyrdd gwell o ateb y galw y cafodd yr elusen ei sefydlu i'w fodloni
- a yw unrhyw gyfyngiadau ar bwy all gael budd yn dal i fod yn briodol

DRAFT

Yn y gorffennol arferai nifer o elusennau helpu pobl drwy ddarparu nwyddau, gan gynnwys bwyd, dillad neu danwydd. Mae nifer o elusennau wedi penderfynu y gallant ateb anghenion presennol yn fwy effeithiol gyda thaliadau arian neu dalebau, ac maent wedi diweddaru eu hamcanion. Wrth gwrs, mae rhai elusennau yn parhau i weithio'n effeithiol drwy ddarparu nwyddau (fel bwyd neu offer meddygol).

Mae elusennau yn cael eu sefydlu'n aml ar gyfer ardal arbennig. Gall newidiadau dros amser olygu nad oes digon o bobl mwyach sydd angen gwasanaethau'r elusen yn y lle hwnnw. Yn yr amgylchiadau hyn, gall elusennau ehangu eu hardal o fudd i gynnwys ardaloedd cyfagos.

Gall dwy elusen sy'n darparu gwasanaethau tebyg (neu gyflenwol) yn yr un ardal benderfynu cydweithio neu uno i fod yn fwy effeithlon.

Penderfynodd elusen sy'n cefnogi pobl ifanc ddigartref y gallai fod yn fwy effeithiol drwy gefnogi ac addysgu pobl ifanc er mwyn helpu i'w hatal rhag bod yn ddigartref yn y lle cyntaf. Paratôdd achos clir yn dadlau bod angen diweddaru ei hamcanion, a chytunodd y comisiwn.

Fel arfer nid yw elusennau'n newid eu hamcanion yn llwyr; ni fyddai'r ddogfen lywodraethol a'r gyfraith elusennau yn caniatáu hynny fel arfer. Gallant addasu neu ychwanegu at eu hamcanion os oes angen, gan ddefnyddio'r pwerau yn y ddogfen lywodraethol, y gyfraith cwmnïau neu'r Ddeddf Elusennau. Os ydych chi'n ystyried diweddaru eich amcanion dylech ystyried i beth y cafodd yr elusen ei sefydlu i'w wneud yn wreiddiol, a sut mae amgylchiadau wedi newid.

Dylech chi feddwl hefyd am ddarpariaethau eraill yn nogfen lywodraethol eich elusen ac a ydynt yn dal i ateb anghenion yr elusen.

Mae dogfennau llywodraethol yn ddogfennau cyfreithiol. Dylech ystyried geisio cyngor priodol ynghylch unrhyw newidiadau. Defnyddiwch ddogfen lywodraethol gymeradwy neu un o ddogfennau llywodraethol enghreifftiol y comisiwn i sicrhau bod eich dogfen lywodraethol yn cynnwys yr holl ddarpariaethau a phwerau y mae eu hangen arnoch chi, a bod y rhain wedi'u geirio'n briodol.

Darllen mwy am adolygu a diweddaru eich dogfen lywodraethol

Darllen mwy am sut i ysgrifennu dibenion elusennol

DRAFT

# 11. Deall ac atal atebolrwydd personol

Yn gyffredinol mae'r gyfraith yn diogelu ymddiriedolwyr sydd wedi gweithredu'n onest ac yn rhesymol. Fodd bynnag:

- gall fod angen i ymddiriedolwyr elusennau anghorfforedig gymryd camau ychwanegol i reoli risgiau
- mae'r comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau
- nid oes unrhyw ddiogelwch rhag atebolrwydd ar gyfer esgeulustod, gweithredu'n ddi-hid neu ddrwgweithred fwriadol

## 11.1 Pam y gall ymddiriedolwyr fod yn atebol yn bersonol

Prin iawn y bydd ymddiriedolwyr sy'n gweithredu'n onest ac yn rhesymol yn atebol yn bersonol. Mae perygl y gallech chi fod yn atebol yn bersonol:

- i'r elusen ei hun, os ydych chi'n achosi colled ariannol i'r elusen trwy esgeulustod neu ddrwgweithred fwriadol, neu os ydych yn cael budd diawdurdod
- i rywun sydd â hawliad yn erbyn yr elusen (gan gynnwys oherwydd gweithredoedd neu hepgoriadau staff neu wirfoddolwyr) os na all yr elusen ddiwallu'r hawliad; mae hyn yn risg i elusennau anghorfforedig

Os ydych chi'n gweithredu'n onest ac yn rhesymol, gan gydymffurfio â'r gyfraith a'ch dogfen lywodraethol, mae'r gyfraith yn eich diogelu chi. Hyd yn oed os yw ymddiriedolwyr gwirfoddol yn gwneud camgymeriad gonest, bydd y gyfraith yn eu diogelu fel arfer. Mae'r comisiwn a'r llysoedd yn disgwyl safonau uwch gan ymddiriedolwyr proffesiynol neu gyflogedig. Fel rheol gall yr elusen fodloni unrhyw rwymedigaethau sy'n codi i chi fel ymddiriedolwr. Ond oes gennych chi rwymedigaethau sy'n fwy na gwerth asedau'r elusen, gallech fod yn atebol am unrhyw swm na all yr elusen ei dalu. Gall y comisiwn ryddhau ymddiriedolwyr o atebolrwydd personol i'r elusen os ydynt wedi gweithredu'n onest ac yn rhesymol. Ni all y comisiwn ryddhau atebolrwydd cytundebol.

Os ydych chi'n gweithredu'n esgeulus, yn ddi-hid neu'n torri'r gyfraith neu'ch dyletswyddau yn fwriadol, mae'r sefyllfa yn wahanol. Gallwch chi fod yn gyfrifol yn bersonol dros wneud iawn am unrhyw golled i'r elusen. Fel arfer byddwch chi a'ch cyd-ymddiriedolwyr yn gyfrifol ar y cyd am fodloni unrhyw rwymedigaeth o'r fath. Gall y comisiwn ddwyn achos yn y llys i adennill cronfeydd y mae elusen wedi'u colli oherwydd tor-ymddiriedaeth gan yr ymddiriedolwyr.

## 11.2 Lleihau'r risg o atebolrwydd personol

Er mwyn lleihau'r risg o fod yn atebol yn bersonol, dylech chi:

- sicrhau y gall yr elusen fodloni ei rhwymedigaethau ariannol, yn arbennig cyn cytuno ag unrhyw gontract neu fenthyca sylweddol
- sicrhau bod ymddiriedolwyr yn deall eu cyfrifoldebau
- cynnal cyfarfodydd ymddiriedolwyr rheolaidd a chadw cofnodion priodol o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud
- sicrhau eich bod yn atal gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar benderfyniadau

DRAFT

- sicrhau bod unrhyw drafodion gyda'r ymddiriedolwyr neu unigolion cysylltiedig ac unrhyw fuddion iddynt yn cael eu hawdurdodi'n briodol
- ceisio cyngor priodol gan unigolyn cymwysedig addas pan fydd angen
- os ydych chi'n dirprwyo unrhyw bwerau, rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig clir a sicrhau bod y cyfarwyddiadau yn cael eu dilyn
- sicrhau bod gan yr elusen reolaethau rheoli ac ariannol effeithiol gan gynnwys
  - cadw derbyniadau a chofnodion cywir o incwm a gwariant
  - derbyn adroddiadau ariannol rheolaidd
  - ffeilio cyfrifon mewn pryd
- sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â'r cyfreithiau eraill sy'n gymwys iddi
- ystyried a oes angen yswiriant ychwanegol ar yr elusen neu a oes angen iddi gael ei chorffori

Darllen mwy am:

- rheoli risg
- yswiriant i elusennau
- newid eich elusen yn gwmni neu'n SCE

## 11.3 Osgoi camgymeriadau - deall eich cyfrifoldebau

Mae nifer o broblemau'n codi oherwydd nid yw'r ymddiriedolwyr yn deall eu rôl neu eu cyfrifoldebau. Os nad ydych chi neu'ch cyd-ymddiriedolwyr yn deall eich bod chi'n ymddiriedolwyr ac yn gyfrifol, gallech chi ganiatáu i rywun arall reoli'r elusen, neu gallech chi fethu â dal pobl i gyfrif am eu gweithredoedd. Os nad ydych chi'n deall bod rhaid i chi weithredu er lles yr elusen, gallai gwrthdaro buddiannau neu ragfarnau personol effeithio ar eich penderfyniadau.

Mae strwythurau cymhleth gan rai elusennau gyda chyrff neu bwyllgorau gwahanol sydd â rolau gwahanol. Dylai rôl a chyfrifoldebau pob corff gael ei esbonio yn y ddogfen lywodraethol neu ym mholisïau'r elusen. Gwnewch yn siŵr ei fod yn glir pwy yw'r ymddiriedolwyr elusen.

Rhowch help llaw i ymddiriedolwyr newyddi ddeall eu cyfrifoldebau, sut mae'r elusen yn gweithio a phwy sy'n gwneud beth. Rhowch sesiynau ymsefydlu a hyfforddiant addas iddynt, gan gynnwys copïau o'r ddogfen lywodraethol, cyfrifon diweddaraf yr elusen, a'r canllawiau.

Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr a benodir gan grwpiau neu sefydliadau eraill ddeall bod dyletswydd ganddynt i'r elusen, ac nid i'r corff a'u penododd.

DRAFT

# 12. Gwybodaeth i ymddiriedolwyr mathau arbennig o elusennau neu rolau arbennig

Mae strwythurau cyfreithiol gwahanol gan elusennau (e.e. ymddiriedolaeth, cymdeithas, SCE, cwmni). Bydd y strwythur cyfreithiol sydd gan eich elusen yn effeithio ar y canlynol:

- a yw'r elusen ei hun yn gallu llunio contractau neu gyflogi staff, neu oes rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y pethau hyn yn bersonol
- a yw tir yn cael ei ddal gan yr elusen ei hun neu gan yr ymddiriedolwyr (neu gan rywun y mae'r ymddiriedolwyr yn ei benodi at y diben hwnnw)
- a all atebolrwydd ymddiriedolwyr fod yn gyfyngedig
- a oes dyletswyddau cyfreithiol penodol gan ymddiriedolwyr sy'n cyfateb â'r strwythur cyfreithiol hwnnw

Darllen mwy am ddewis strwythur elusen

Mae gan bob ymddiriedolwr yr un cyfrifoldebau cyfreithiol, ond mae rolau neu ddyletswyddau arbennig gan rai ymddiriedolwyr fel Cadeirydd a Thrysorydd.

## 12.1 Sefydliadau corfforedig elusennol (SCEau)

Mae'r SCE yn ffurf gyfreithiol newydd ar gyfer elusennau. Mae SCEau yn gyrff cyfreithiol eu hunain:

- mae'n rhaid i'r elusen gofrestru gyda'r comisiwn a daw i fodolaeth dim ond ar yr adeg honno
- gall yr elusen ddal eiddo neu lunio contractau yn ei henw ei hun
- mae atebolrwydd ymddiriedolwyr yn gyfyngedig (oni bai eu bod nhw'n torri eu dyletswyddau cyfreithiol fel ymddiriedolwyr)
- mae'n rhaid i ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol o'r rheolau ar gyfer SCEau

Mae dyletswyddau penodol gan ymddiriedolwyr SCEau o dan y Ddeddf Elusennau:

- i weithredu mewn ffordd y maen nhw'n penderfynu, mewn ewyllys da, fydd yn fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion y SCE
- dyletswydd gofal yn debyg i'r ddyletswydd yn Neddf Ymddiriedolwyr 2000 (fel yr esbonnir yn rhan 8 y canllaw hwn)

Gwybod mwy am beth mae'n rhaid i SCEau ei wneud

## 12.2 Cwmnïau elusennol

Mae cwmnïau elusennol yn gyrff cyfreithiol eu hunain:

- mae'n rhaid i'r elusen gofrestru gyda a chyflwyno manylion i Dŷ'r Cwmnïau hefyd
- mae'n rhaid i'r elusen baratoi adroddiad y cyfarwyddwyr a chyfrifon o dan y gyfraith cwmnïau; mae'n rhaid i'r rhain gydymffurfio â gofynion y gyfraith elusennau hefyd
- gall yr elusen ddal eiddo neu lunio contractau yn ei henw ei hun

DRAFT

- mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfarwyddwyr cwmni ac mae ganddynt ddyletswyddau o dan y gyfraith cwmnïau
- mae atebolrwydd ymddiriedolwyr yn gyfyngedig (oni bai eu bod nhw'n torri eu dyletswyddau fel ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr cwmnïau)

Gwybod mwy am ddyletswyddau cyfarwyddwyr cwmnïau

## 12.3 Mathau eraill o elusennau anghorfforedig

Mae rhai elusennau wedi'u hymgorffori gan Siarter Frenhinol neu Ddeddf Seneddol. Mae'r elusennau hyn yn gyrff cyfreithiol eu hunain:

- Gall yr elusen ddal eiddo neu lunio contractau yn ei henw ei hun
- Mae'r statws corfforedig yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch i'r ymddiriedolwyr rhag atebolrwydd personol
- Gall Siartrau Brenhinol a Deddfau Seneddol fod yn anodd i'w diwygio neu eu diweddaru

Darllen mwy am elusennau Siarter Frenhinol

## 12.4 Elusennau anghorfforedig (ymddiriedolaethau a chymdeithasau anghorfforedig)

Mae elusennau sydd wedi'u sefydlu gan weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad neu ddogfen lywodraethol debyg yn anghorfforedig. Mae hyn yn golygu nad yw'r elusennau hyn yn gyrff cyfreithiol eu hunain:

- mae'n rhaid i ymddiriedolwyr lunio contractau neu gytundebau yn eu henwau eu hunain ar ran yr elusen
- ni all yr elusen ddal eiddo yn ei henw ei hun; mae'n rhaid i unrhyw dir neu eiddo arall gael eu dal ar ran yr ymddiriedolwyr.
- mae atebolrwydd ymddiriedolwyr yn anghyfyngedig

Os nad yw'r ymddiriedolwyr am ddal teitl cyfreithiol ar gyfer unrhyw dir neu eiddo arall eu hunain, gallant benodi enwebai, ymddiriedolwyr daliannol (unigolion eraill) neu ymddiriedolwr gwarchod (cwmni neu gorff corfforaethol arall sydd â'r pŵer i ddal eiddo i'r elusen). Gall y ddogfen lywodraethol esbonio sut i wneud hyn.

Nid yw ymddiriedolwyr daliannol a gwarchod yn ymddiriedolwyr elusen; ni allant wneud penderfyniadau am reoli'r elusen neu ei heiddo, ac mae'n rhaid iddynt ddilyn cyfarwyddiadau cyfreithiol yr ymddiriedolwyr elusen.

Y ffordd symlaf o weithredu efallai fydd breinio'r tir yn y Ceidwad Swyddogol ar gyfer Elusennau. Darllen am Wasanaeth dal tir y Ceidwad Swyddogol ar gyfer Elusennau

Gwneud cais i drosglwyddo tir neu eiddo i'r Ceidwad Swyddogol

DRAFT

## 12.5 Rôl y cadeirydd a'r trysorydd

Bydd rolau arbennig gan rai ymddiriedolwyr, fel y cadeirydd a'r trysorydd. Fe'u gelwir yn swyddogion. Fel arfer nid oes unrhyw bwerau neu gyfrifoldebau ychwanegol gan swyddogion elusennau o'u cymharu ag ymddiriedolwyr eraill. Er enghraifft, mae pob ymddiriedolwr yn rhannu'r cyfrifoldeb am gyllid (nid yn unig y trysorydd). Ni all cadeirydd wneud penderfyniadau ac eithrio yn unol ag unrhyw awdurdod dirprwyedig wedi'i gytuno gan yr ymddiriedolwyr, a dylent hysbysu'r ymddiriedolwyr eraill o unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

Fel arfer bydd y trysorydd yn arwain ar y canlynol:

- sicrhau bod yr elusen yn cadw cyfrifon priodol
- adolygu perfformiad ariannol yr elusen
- llunio polisïau ar gyfer cyllid a buddsoddiadau
- sicrhau bod rheolaethau ariannol cadarn ac effeithiol gan yr elusen

Disgrifiad rôl ar gyfer trysorydd elusen - Tudalennau Llywodraethu

Mae'r cadeirydd yn:

- helpu i gynllunio a rhedeg cyfarfodydd ymddiriedolwyr
- gallai fod ail bleidlais neu bleidlais fwrw ganddo/ganddi os oes pleidlais gyfartal ar benderfyniad ymddiriedolwyr, ond dim ond os yw hyn wedi'i nodi yn nogfen lywodraethol yr elusen
- gall gynrychioli'r elusen mewn digwyddiadau
- gallai hefyd weithio fel cyswllt rhwng ymddiriedolwyr a staff

Disgrifiad rôl ar gyfer cadeirydd elusen - Tudalennau Llywodraethu

Cwmpawd y Cadeirydd - Canllaw i Gadeiryddion Elusennau a Sefydliadau Di-elw

DRAFT